

Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc Dalgylch y Gader 2014

Fel rhan o waith ad-drefnu ysgolion, roedd cyfnod ymgynghori statudol yn Nalgylch y Gader rhwng 10 Hydref a 24 Tachwedd 2014. Mae'n ofynnol fod y Cyngor yn ymgynghori hefo plant a phobl ifanc yr ardal ynglŷn â'r cynnig o sefydlu ysgol ddilynol ddalgylchol cymunedol, cyfrwng Cymraeg aml safle i ddisgyblion 3 - 16 oed.

Paratowyd dogfennau priodol ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2 a'r Cyngor Ysgol Uwchradd a rhoddwyd hwylusydd mewn lle i gwblhau'r gwaith o drafod yr opsiwn hefo'r plant a phobl ifanc (*Yn dilyn cais penodol gan Ysgol Brithdir fe gynhaliwyd sesiwn gyda'r Cyfnod Sylfaen yn ogystal*).

Roedd pob sesiwn yn cymryd hanner awr i awr i'w gwblhau. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a gofyn cwestiynau oedd yn gofyn iddynt gael trafodaeth a chofnodwyd yr ymatebion. Roeddynt hefyd yn cael cyfle i lenwi taflenni ar wahân oedd yn golygu eu bod yn gallu rhoi atebion personol.


Roedd 10 ysgol yn gysylltiedig a 206 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan

Gweler isod amserlen y sesiynau ymgynghori, rhestr yr ysgolion perthnasol a nifer yr ymatebwyr

Dydd Mercher 5 Tachwedd 2014	9.30am Ysgol Dinas Mawddwy	11.00am	1.30pm Ysgol Clogau
Dydd Iau 6 Tachwedd 2014	9.30am Ysgol Ieuan Gwynedd	11.00am	1.30pm Ysgol Brithdir
Dydd Iau 13 Tachwedd 2014	9.30am Ysgol Gynradd Dolgellau	11.00am Ysgol Ganllwyd	1.30pm Ysgol Llanelltyd
Dydd Mawrth 18 Tachwedd	9.30am	11.00am Ysgol Machreth	1.30pm Ysgol Brithdir
Dydd Gwener 21 Tachwedd	9.30am Ysgol Uwchradd Y Gader	11.00am Ysgol Friog	1.30pm

Ysgolion:

1. Ysgol Machreth
2. Ysgol Friog
3. Ysgol Ieuan Gwynedd
4. Ysgol Brithdir
5. Ysgol Clogau
6. Ysgol Dinas Mawddwy
7. Ysgol Ganllwyd
8. Ysgol Llanelltyd
9. Ysgol Gynradd Dolgellau
10. Ysgol Uwchradd y Gader



Fel rhan o'r cyflwyniad i'r gwaith ymgynghori roedd yr hwylusydd yn gofyn cwestiynau i'r plant mewn trafodaeth er mwyn creu perthynas ac i ddod i adnabod sut yr oeddent yn teimlo yn gyffredinol.

Beth yw pwrpas newid ysgolion?

Cwestiwn cyffredinol er mwyn darganfod os oedd y plant yn deall beth oedd bwriad y Cyngor

- Trio cael pawb mewn un lle
- Gormod o ysgolion ymhob man
- 'Expandio'r ysgol yma i gael mwy o blant
- Cau ysgolion a symud y plant i ysgolion eraill
- Gwella'r addysg
- Dim gormod o adeiladau o gwmpas
- I stopio gwario gymaint o bres
- Gormod o blant mewn un ysgol
- Symud achos bod yr ysgol arall rhy bell
- Llai o ysgolion bach.
- Mwy o le
- Gwella adeilad

Pam fod Cyngor Gwynedd eisiau barn plant?

Roedd yr hwylusydd yn awyddus i ddarganfod os oedd y plant yn deall y broses ymgynghori a pam fod rhaid gwneud hynny.




- Cael ein barn
- Gwneud yn siŵr fod y plant yn deallt y syniad
- Barn rhieni, gofalwyr, athrawon a chyfeillion

Dyma rai o'r cwestiynau a godwyd yn ystod y trafodaethau yma:

- Pam fod ysgol dda yn gorfod cau?
- Pam cau ysgol hefo lot o blant?
- Pam cau rhai bach ac agor rhai mawr?
- Pam symud ysgol sydd yn llawn i ysgol hefo llai?
- Sut da ni yn gwybod fod y plant yn hapus i symud?
- Pam ddim Rhydymain i Brithdir?

Dyma atebion y cwestiynau penodol a ofynnwyd i'r plant

NODER - Mae sylwadau gan y plant a'r bobl ifanc wedi eu dyfynnu yn uniongyrchol o'r dogfennau a gynhyrchwyd yn ystod yr ymgynghori

Cwestiwn 1 – Sut yr ydych yn teimlo am hyn?			
Ysgol			
Ysgol Machreth	3	2	1
Ysgol Friog	4	5	2
Ysgol Ieuan Gwynedd	8	5	2
Ysgol Brithdir	0	0	12
Ysgol Clogau	1	6	5
Ysgol Dinas Mawddwy	4	0	7
Ysgol Ganllwyd	1	2	9
Ysgol Llanelltyd	11	3	6
Ysgol Gynradd Dolgellau	40	1	38
Cyfanswm	72	24	82

Cwestiwn 2 - Beth sydd yn eich poeni am hyn?	
Ysgol Gynradd Dolgellau	<ul style="list-style-type: none"> Sut fydd gwaith yn effeithio arna ni (buildars)? Pam torri'r cantîn i lawr? Os mae yr ysgolion yn cau, fydd yr ysgolion eraill yn cael mwy o staff? Fydda ni yn cael car park newydd? Os fysa mwy o blant yn dod i'r ysgol yma, fysa na llawer o bwls? Fysa i'n meddwl bod fysa ffrindiau arall yn dod, a bwls? Faint o blant fysa yn bob dosbarth? Dwedodd mam bod mae dim ond 30 o blant mae un athro/athrawes yn cael dysgu ar y tro. Dwi'n teimlo yn hapus, trist a iawn am hwn achos ar y darn trist fydd rhai plant yn colli ffrindiau mae rhai plant yn bwls a nhw sydd yn edrych yn wirion. Dwin hapus am hwn achos fydd safle newydd mawr yn well hefo lot o ffrindiau. Dwi ddim yn meddwl fydd yr athrawon yn hapus achos bod nhw yn colli ei jobiau.
Ysgol Llanelltyd	<ul style="list-style-type: none"> Bysa fi ddim yn gwbod lle dwin mynd. Rydw i ddim yn hoffi newidiadau. Lle fyddwn ni yn mynd pan fydd yr ysgol yn ganol y newid? Faint o amser mae o'n gymryd i neud yr holl newidiadau? Achos byddwn i ddim yn hoffi cael pobl arall oedd yn yr ysgol arall. Rydw i'n hoffi'r ysgol sut mae o, a dwi ddim yn siŵr os byddwn i'n hoffi'r newidiadau i'r ysgol.
Ysgol Brithdir	<ul style="list-style-type: none"> Pam wyt ti eisiau cau ysgolion i lawr?

	<ul style="list-style-type: none"> • Pam ddim Rhydymain i Brithdir? • Pam yda ni yn goro symud? • Dwi ddim isio symud pam wyt ti wedi dewis Rhydymain i aros ar agor? • Y bydd yn cymryd yn hir iawn i do di Rhydymain o tŷ fi • Athrawon yn colli jobs • Mae Rhydymain yn bell o bob man, gadwch lonydd i Brithdir • Da chi yn sboilio'r gymuned • Bydd y cost yn ddrud a mae na bethau gwêl yw gwneud na cau ysgolion da • Da ni ddim eisiau ysgol arall, dwi ddim y licio'r syniad hwn
Ysgol Clogau	<ul style="list-style-type: none"> • Bwlio plant • Rydw i ddim eisiau ysgol yma i gau • Mae'r ysgol yn mynd i newid i rhywbeth gwahanol • Athrawon yn ysgol arall yn fod yn gas • Colli ein ffrindiau • Hanes o teulu fi yma
Ysgol Dinas Mawddwy	<ul style="list-style-type: none"> • Ddim byd yr run peth, na ffrindiau na athrawon. Oherwydd dwi yn gwybod sut mae o'n teimlo oherwydd dwi wedi symud tŷ ac ysgol. • Gormod o blant yn ysgol newydd • Colli ffrindiau • Os mae'r ysgol yn rhy fawr os rhy gormod o blant, rhy gormod o dacsis
Ysgol Ganllwyd	<ul style="list-style-type: none"> • People yn bod yn mean i ti • Dim yn arfer hefo plant newydd • Cymryd yn hir i arfer hefo ysgol newydd • Rydw i ddim isiau symud ysgol achos dwi ddim yn gallu gweld ffrindiau
Ysgol Ieuan Gwynedd	<ul style="list-style-type: none"> • Pam mae nhw yn newid ysgol • Athrawon yn mynd i ysgol arall • Rydw i ddim eisiau athrawon newydd • Pa gwisg ysgol fydda ni yn wisgo? • Pwy fydd yr athrawon? • Faint o blant fydd yn y dosbarthiadau?
Ysgol Friog	<ul style="list-style-type: none"> • Rydw i yn meddwl bod o'n rhywbeth da achos mae plant fwy yn gallu cael ffrindiau newydd a ddim just hyna fydd mwy o bobl yn codi pres i'r ysgol yma. • Dwin hapus i blant dod i'r ysgol achos dwi eisiau mwy o ffrindiau achos does 'na ddim lot o blant yma
Ysgol Machreth	<ul style="list-style-type: none"> • Trist oherwydd rhaid mynd yn bell • Trist oherwydd mae'r ysgol yma yn ysgol hapus iawn • Hapus oherwydd cael ffrindiau newydd

Cwestiwn 3 – Beth yr ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf?

Ysgol Gynradd Dolgellau	<ul style="list-style-type: none">• Cantin yn sownd i'r ysgol• Mwy o Camolaieth• Offerynnau newydd• To newydd• Mwy o athrawon felly dyda ni ddim yn gorfod torri'r dosbarthiadau i fyny• Mwy o le, dwi wedi cael digon ar redeg dros yr un lle drosodd a drosodd• Safle parcio• Efallai cael y babanod yn sownd i'n ysgol ni• Cael llenni newydd• Dosbarth mwy• Gwneud y neuadd yn fwy posh• Dwin dymuno fydd mwy o blant yn yr ysgol i gael chwarae hefo nhw• Cael athrawon neis a ffeind.• Fyswn i yn hoffi bod na rhywle i ymlacio
Ysgol Llanelltyd	<ul style="list-style-type: none">• Athrawon iaith• Toiled i'r merched a'r bechgyn• Y we yn well• Byswn i yn hoffi cael ecstension a cael adeilad chwaraeon
Ysgol Brithdir	<ul style="list-style-type: none">• Cadw'r ysgol ar agor• Dim byd yn digwydd, paid a symud neb• Aros ar agor, gad llonydd neud ysgol wrth ysgol ni• Aros yma, gwneud ysgol arall yn Brithdir• Rhydymain symud i Brithdir
Ysgol Clogau	<ul style="list-style-type: none">• Ffrindiau yn dod hefo fi• Athrawon yn ysgol yn Clogau yn yr ysgol newydd
Ysgol Dinas Mawddwy	<ul style="list-style-type: none">• Safle ceir• Drysau newydd• Bwrdd gwyn newydd
Ysgol Ganllwyd	<ul style="list-style-type: none">• Ffrindiau newydd• Pethau newydd yn yr ysgol• Athrawes hen fi• Cloch newydd
Ysgol Ieuan Gwynedd	<ul style="list-style-type: none">• Pawb yn garedig• Cadw ieir• Bwrdd yr un

	<ul style="list-style-type: none"> • Bod ni yn cael gwaith hawdd • Cael gwersi beics
Ysgol Friog	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o anifeiliaid anwes • Mwy o glybiau
Ysgol Machreth	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd gwyn mawr • Gols rygbi • Llyfrgell newydd

Cwestiwn 4 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chi mewn ysgol?

Ysgol Gynradd Dolgellau	<ul style="list-style-type: none"> • Yr iard a'r cantin • Rwy'n hoffi yr athrawon yn fawr, fawr, fawr iawn • Diolch am y llyfrgell • Diolch am waith • Rydw i yn hoffi amser chwarae, rydw i yn hoffi gwersi ymarfer corff • Mae gen i ffrindiau ardderchog a da iawn. • Dwi'n hoffi ysgol yma am cael amser aur. Ac dwi'n hoffi siop ffrwythau, ac dwi'n hoffi gwneud gwaith ac ysgrifen dwbwl • Dwin hoffi'r bwyd amser cinio
Ysgol Llanelltyd	<ul style="list-style-type: none"> • Dwi'n hoffi gwyddoniaeth • Dwin hoffi trefn yn yr ysgol
Ysgol Brithdir	<ul style="list-style-type: none"> • Athrawon Rhagorol • Ffrindiau da, Addysg dda • Yr iard amser cinio • Mae pawb yn ffrindiau
Ysgol Clogau	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith Mathemateg • Tripiau ysgol • Gardd yn y cefn
Ysgol Dinas Mawddwy	<ul style="list-style-type: none"> • Trip ysgol • Dosbarthiadau • Mabolgampau • Celf • Lleoliad braf • Drysau newydd • Gweithgareddau Cymraeg a Saesneg
Ysgol Ganllwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith – sort of • Rydw i yn hoffi athrawon

	<ul style="list-style-type: none"> • Dim lot o blant, mwy o sylw, dim lot o blant cas • Maint yr ysgol
Ysgol Ieuan Gwynedd	<ul style="list-style-type: none"> • Pawb yn ffrindiau da • Athrawon caredig • Lecio fod dim byd yn newid • Amser darllen
Ysgol Friog	<ul style="list-style-type: none"> • Hoffi anifeiliaid anwes • Mynd ar ras y trêen • Athrawes fi • Mae'r gwaith a clybiau yn hwylus
Ysgol Machreth	<ul style="list-style-type: none"> • Cymraeg • Sioe Nadolig • Ffrindiau • Pêl Droed • Diolchgarwch • Urdd

Ysgol Uwchradd y Gader

Roedd yr hwylusydd yn cael sgwrs fer gyda aelodau'r Cyngor Ysgol i esbonio'r cynnig ac yna roedd yr unigolion yn cwblhau'r holiadur eu hunain. 29 aelod o'r Cyngor Ysgol a gwblhaodd yr holiadur.

Cwestiwn 1 –Sut yr ydych chi'n teimlo am yr hyn sy'n cael cynnig?

- I think a few people that speak English as a first language would find it difficult to speak Welsh all the time. Its quite a good idea with the schools, bringing them from ten to six in the catchment area.
- Fydd un pennaeth byth yn gallu rheoli ar ei ben ei hun
- Rydw i'n meddwl fod o yn iawn fel mae o, ysgol gynradd ac ysgol uwchradd. A dydi rhai plant ddim eisiau cael ysgol Gymraeg
- Rwy'n deall y syniad a'i bwrpas ond yn anffodus gallaf ddim gweld hyn yn bod yn llwyddiannus iawn yn y pen draw, yn bennaf oherwydd arian.
- Fasa hyn mond yn gwella ysgolion hefo arian a swyddi.
- Gall helpu'r ysgolion yn economaidd ond mae'n siomedig gorfod gweld cymaint o ysgolion yn cau.
- Dydw i ddim yn hapus o gwbl bod rhaid cau'r holl ysgolion bach, mae hi'n bell i blant bach deithio o un ysgol i'r llall. Ond mi rydw i'n hapus bod ysgol y Gader ac ysgol Dinas Mawddwy yn parhau. Os ydych am gael un pennaeth dewiswch rywun sy'n yn gwybod beth maen nhw yn neud.
- I think it's a good idea because there's a lot of schools in this area to run, so if we get rid of a few and join them together then it will be less cost, so more money can go to the other schools to have better education.
- I think it's a good idea re-organising the catchment area. The schools can have more finances for better education. Although some parents might be against it for example

	<p>issues with the travel.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Oes yna rywbeth yn bod hefo'r system sy'n cael ei ddefnyddio? Sut bydd plant yn mynd o'i chartrefi i'r ysgol pryd fydd neb yn gallu mynd a nhw? Ella fydd y cyngor yn creu bws sydd yn mynd a'r plant i ysgol. Bws heb pobl ddieithr arni ac mae mond yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion. Fydd athrawon yn colli swyddi neu fydd y syniad yn creu swyddi newydd? • Mae angen gwneud rhywbeth am yr holl lefoedd gwag mewn ysgolion cynradd. Os ydy'r cynllun yn mynd ymlaen dwi'n gobeithio bydd yn golygu fod gwell adnoddau ar gael i athrawon, yn enwedig athrawon cynradd. • Mae fwy o blant wedi bod yn Ysgol Brithdir nag yn Friog, Rhydymain ac yn bosib Llanelltyd. Yn fy marn i, rhaid cadw ysgol Brithdir ar agor. Prynwch y cae drws nesaf a creu 'extension'. Dwin cytuno hefo Llanelltyd, Cynradd Dolgellau i gad ar agor.
<p>Cwestiwn 2 - Oes unrhyw beth sy'n eich poeni am y cynnig?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Having to speak Welsh as a first language in school, I'd rather it stay bilingual • Un peth sydd yn fy mhoeni am y cynnig yw bod yr ysgolion bach gwledig yn cael eu cau. Hynny yw, rwyf fi wedi dod o ysgol bach iawn oedd gyda dim ond 16 disgybl yno pan gadawais i, ac mae tua 13 yno yn bresennol, ac rydw i'n teimlo fy mod wedi cael addysg cynradd da, ond hefyd roeddem yn teimlo'n glos iawn fel teulu i raddau a chredaf byddai'n siom i blant eraill golli hyn. • Wedi dod o ysgol gynradd fach wledig credaf nad yw'r plant am gael yr un cyfleon. Roedd pawb yn cael yr un chwarae teg a'r un cyfleon gan fod llai o athrawon, ac felly roedd yr athrawon yn gwneud eu gorau gyda phob disgybl – nid y rhan fwyaf. Yn yr ysgol gynradd roeddent yn gwneud yn siwr bod pawb yn cyrraedd eu llawn potensial, ond gyda ysgolion mwy a dim ond 1 prifathro dros y cwbl, medrant anghofio am rai disgyblion. Nid ydych yn cael yr un deimlad glos mewn ysgol fawr ag y byddech yn ei gael mewn ysgol fach. Yn aml iawn ysgolion bach yw calon y gymuned. • Cael un pennaeth i 6 ysgol, fydd hi'n anodd i siarad efo'r pennaeth oherwydd fydd rhaid symud o ysgol i ysgol drwy'r wythnos. • I hope this does not change Ysgol y Gader into a Welsh medium school as well. As I am foreign, Welsh is not my first language and half of the pupils are English. I do agree with strengthening the Welsh language but I'd like to see Ysgol y Gader opening as a bi-lingual. • Beth fydd yn digwydd i adeiladau'r ysgolion fydd yn cau? • Mae effaith bod un pennaeth yn rheoli'r ysgol enfawr yn fy mhoeni oherwydd os yw yn gwneud un camgymeriad bydd yr ardal i gyd yn dioddef, yn yr hen system byddai'r ysgolion eraill yn gallu cario mlaen heb gael ei effeithio.
<p>Cwestiwn 3 - Oes unrhyw beth yr ydych yn ei hoffi neu yn edrych ymlaen ato gyda'r cynnig hwn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rwy'n edrych ymlaen i weld mwy o arian yn cael ei wario. • Addysg well oherwydd mwy o athrawon • Bydd yr ysgolion yn gallu gweithio hefo'i gilydd a buasai'r plant yn gallu defnyddio'r ysgolion eraill i gymeryd rhan mewn gweithgaredd neu er mwyn dysgu fel yr ysgolion cynradd yn defnyddio'r gwefannau yn Ysgol y Gader ac y gampfa hefyd. Efallai byddai'r plant yn gallu symud o'r ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd yn well os ydyn nhw yn teimlo fel eu bod nhw yn gweithio hefo'r ysgol uwchradd. • Adeilad newydd a technoleg gwell. • It will be nice to see the school in a better condition and looking better. It would also be nice when the students have better resources to improve their education. • Rwyf yn edrych ymlaen am ysgol newydd ond dim yn meddwl bod o yn syniad iawn.

	<ul style="list-style-type: none"> Fydd hyn yn rhoi safonau addysg gwell i blant, ond nad fydd y newidiadau yma yn effeithio fi. Fydd yna cynnig profiadau i'r plant
Cwestiwn 4 – Yn gyffredinol, beth yw'r pethau pwysig i chi mewn ysgol?	<ul style="list-style-type: none"> Fydd mwy o help ar gael. Education! Y peth pwysicaf yw addysg y plant os maent yn hapus ac yn cael addysg da. Yn gyffredinol y pethau pwysicaf i mi mewn ysgol yw derbyn yr ansawdd addysg gorau, teimlo'n hapus yn yr ysgol, ac yn olaf, derbyn cyfleoedd bythgofiadwy e.e. trip sgïo - gan ei fod yn help i aeddfedu plentyn. Ceisio dysgu a derbyn addysg da mewn amgylchedd iach sy'n annog plant i 'express ourselves'. Annog nhw i geisio trio pethau newydd a chael profiad da o'r byd i weithio'n galed. Athrawon sydd yn gwybod be i neud. Athrawon da yn helpu drwy'r amser. Dim trafferth mynd am ginio. Chwarae rygbi neu bêl droed amser egwyl a chinio. Bod hefo ffrindiau Yr addysg orau posib. Pawb yn cael yr un cyfleon. Amgylchedd gartrefol. Teimlad o berthyn i rhywle rydych yn falch ohono. Cael eich paratoi yn drylwyr ar gyfer y dyfodol. In a school you need good education and proper teachers not just stand in ones all the time. A school also needs healthy food and drink. To have a good, not too easy but challenging enough education in the school, to enjoy yourself and learn new things. Rydw i'n credu bod rhoi sylw i bob plentyn a'i thrin yn deg yn peth pwysig iawn. Rydw i hefyd yn credu bod creu amgylchedd cyfforddus i weithio ynddo yn peth pwysig oherwydd o ganlyniad mae plant yn debygol o weithio'n well. Rydw i hefyd yn credu bod gadael i'r plant lleisio'i barn yn bwysig yn ysgol oherwydd mae'r plant wedyn yn teimlo fel bod yr ysgol yn cael ei redeg fel y bysa nhw yn dymuno a buasai unrhyw wendidau amlwg yn gallu cael eu codi gan y plant

Beth ddaeth yn amlwg o'r broses ymgynhori oedd fod plant yn fodlon addasu i sefyllfa newydd er eu bod yn poeni am fwlio, colli ffrindiau ac athrawon, ond yn gyffredinol roedd yr adborth yn bositif yn rhan fwyaf o'r ysgolion.

Prif bwyntiau'r ymgynghori:

Cynradd	Uwchradd
Sut y bydd trefniadau newydd yn sicrhau fod pawb yn cael chwarae teg.	laith yr ysgol
Plant yn poeni am fwlio	Bod Athrawon a Pennaeth cymwys i redeg y sefydliad
Plant yn poeni am laith yr ysgol	Safon yr addysg
Plant ddim eisiau colli ffrindiau	
Cludiant	